Canolfan Gefnogi Trais A Cham-Drin Rhywiol Gogledd Cymru (RASASC GC)

**Swydd – Gweithiwr Cymorth Plant a Phobl Ifanc**

---

**O ganlyniad cyllid gan y Loteri Genedlaethol rydym yn recriwtio ar gyfer Gweithiwr Cefnogi Plant a Phobl Ifanc i ddatblygu a gwella ein gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc.**

---

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Gweithiwr Cymorth Plant a Phobl Ifanc |
| **Yn atebol i'r:** | Pennaeth Gwasanaeth |
| **Graddfa Gyflog:** | £27,300 y flwyddyn (pro rata ar gyfer rhan amser) |
| **Gwyliau blynyddol:** | 28 diwrnod y flwyddyn (a gwyliau cyhoeddus) – pro rata ar gyfer rhan amser |
| **Oriau:** | 28 - 35 awr yr wythnos . Dylid nodi, oherwydd natur y rôl hon, y bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio ei oriau cytundebol yn hyblyg i ddiwallu anghenion y sefydliad a'n cleientiaid, a bydd yn ofynnol i beidio â gorffen diwrnod gwaith yn gynharach na 5yp. |
| **Lleoliad Gwaith:** | Canolfannnau RASASC Gogledd Cymru Bangor a / neu Rhyl |
| **Dyddiad cau:** | **26 Fehefin 2026** |
| | Gan fod ceisiadau'n cael eu hadolygu'n barhaus, mae'n bosibl y byddwn yn cau'r swydd wag hon cyn y dyddiad cau a hysbysebwyd os derbynnir nifer ddigonol o geisiadau addas. Felly, rydym yn annog ymgeiswyr sydd â diddordeb i wneud cais cyn gynted â phosibl. |

**Bydd gofyn cael archwiliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y swydd hon.**

**Rhaid i ddeiliad y swydd fod yn gymwys i weithio yn y DU ar hyn o bryd.**

**Rhaid i ddeiliad y swydd feddu ar Drwydded Yrru lawn y DU a dylai ymgeiswyr nodi bod y rôl yn gofyn am gryn dipyn o deithio ar draws Gogledd Cymru.**

---

| | |
|---|---|
| **Proses ymgeisio:** | I wneud cais am y swydd wag hon, anfonwch eich CV a'r ffurflen gais wedi'i chwblhau at: sharon@rasawales.org.uk **cyn 26 Mehefin 2026.** |

**Y Swydd**

- Darparu cymorth ymarferol ac emosiynol i blant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin rhywiol, tra eu bod naill ai'n aros am neu'n defnyddio cwnsela therapiwtig RASAC GC. Bydd y swydd hon yn arwain at ddarparu sesiynau therapi chwarae, sesiynau gweithgaredd, sesiynau cymorth un i un a hwyluso rhaglen cymorth gan gymheiriaid. Bydd y broses o gyflwyno'r sesiynau a'r rhaglenni hyn yn gwella llesiant emosiynol a chorfforol y plant a'r bobl ifanc dan sylw. Lleihau lefelau o drallod sydd gan gyfranogwyr, a galluogi plant a phobl ifanc i reoli eu hemosiynau a'u hymddygiad yn well.
- Cefnogi a chyd-ddarparu amrywiaeth o ymyriadau addysg a llesiant deinamig a diddorol i blant, pobl ifanc, oedolion a gweithwyr proffesiynol ar amrywiaeth eang o bynciau fel iechyd rhywiol, iechyd atgenhedlon, perthnasoedd a llesiant.

**Prif Ddyletswyddau**

- Bydd deiliad y swydd yn creu amgylchedd diogel a chefnogol sy'n ystyriol o drawma ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau RASASCGC.
- Cynorthwyo gyda chyflwyno ein Rhaglen Peidiwch â Dwyn Fy Nyfodol a chynlluniau hyfforddi eraill.
- Helpu i gyflwyno gwaith grŵp i blant a phobl ifanc a rhieni / gwarcheidwaid plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.
- Mynychu digwyddiadau allgymorth ac ymgysylltu cymunedol, er mwyn codi ymwybyddiaeth a chodi proffil RASASC GC.
- Cyfathrebu ac ymgysylltu ag unigolion sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.
- Gweithio i rymuso a chefnogi plant / pobl ifanc i wneud dewisiadau cadarnhaol ac adennill rheolaeth dros eu bywydau.
- Sicrhau bod unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelu plant neu oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu dwyn i sylw'r Arweinydd Diogelu yn RASASC ar unwaith.
- Ymgymryd â thasgau gweinyddol, cadw cofnodion o weithgarwch y gwasanaeth, a chyfrannu at ddatblygu offer monitro a gwerthuso. Bydd hyn yn cynnwys darparu manylion gweithgareddau i'r uwch dîm rheoli er mwyn iddynt fod yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gyllidwyr.
- Darparu mynediad at wybodaeth i unigolion sydd wedi dioddef trais/cam-drin rhywiol.
- Cyfrannu at asesu dioddefwyr a goroeswyr trais a cham-drin rhywiol.
- Darparu ymyriadau tuag at wella diogelwch plant a phobl ifanc unigol drwy ddarparu sesiynau cymorth un i un gan ddefnyddio adnoddau priodol ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Cefnogi dioddefwyr ifanc a goroeswyr trais a cham-drin rhywiol mewn llety diogel, gan eu helpu i lywio eu ffordd o amgylch bywyd lloches, cael gwell dealltwriaeth o gam-drin rhywiol ac ymdopi â phryderon penodol.
- Cynnig sesiynau grŵp i blant a phobl ifanc
- Sicrhau bod plant sy'n cael eu hadnabod fel rhai sydd angen cymorth ychwanegol arnynt yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau allanol, ee diogelu, cam-drin domestig, CAMHS
- Sicrhau bod rhieni'n cael eu hannog i atgyfnerthu'r gwaith cefnogi cadarnhaol sy'n cael ei wneud gyda'u plant mewn sesiynau gweithgaredd yn ystod amser teuluol, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o hynny.
- Datblygu a chynnal rhestr o'r holl offer ac adnoddau.
- Sicrhau bod yr holl wasanaethau a'r gweithgareddau a ddarperir yn cael eu cyflawni yn unol â'r Egwyddorion Gwaith Chwarae, fel y sefydlwyd gan Chwarae Cymru, ac yn unol â phum egwyddor graidd Gofal sy'n Ystyriol o Drawma, sef: Diogelwch, Ymddiriedaeth, Dewis, Cydweithio a Grymuso.

**Manlyleb Person**

**Hanfodol**

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r problemau sy'n wynebu'r rheini sy'n dioddef Cam-drin Rhywiol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o drawma a sut mae'n effeithio ar blant a phobl ifanc
- Gallu cyfathrebu'n sensitif ag unigolion a allai fod wedi cynhyrfu mewn ffordd sy'n deall eu trawma
- Gwybodaeth am amrywiaeth o opsiynau ar gyfer hawliau'r rheini sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol
- Dealltwriaeth o Ddiogelu, a'r cyfrifoldebau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r materion hyn.

- Gallu cysylltu â sefydliadau allanol
- Gallu gweithio dan bwysau a chynllunio a blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun
- Gallu cyfathrebu'n effeithiol ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol
- Gallu sefydlu a chynnal ffiniau priodol wrth weithio â'r bobl sy'n wynebu argyfwng
- Gallu cynnal systemau swyddfa effeithiol a defnyddio cronfa ddata rheoli achos electronig
- Gallu rheoli amser yn effeithiol a blaenoriaethu tasgau sy'n cystadlu â'i gilydd
- Gwybodaeth am ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol
- Gwybodaeth am fudd-daliadau llesiant
- Dealltwriaeth o anghenion grwpiau lleiafrifol sy'n dioddef cam-drin rhywiol
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac ar bapur
- Dealltwriaeth o gyfleoedd cyfartal, ac ymrwymo i hynny
- Trwydded yrru lawn y DU a'r gallu i ddefnyddio eich car eich hun.
- Hyblygrwydd i deithio'n lleol ac ar draws siroedd eraill os oes angen.

**Profiad Dymunol**

- Darparu cymorth i unigolion sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol, boed hynny mewn swydd gyflogedig neu wirfoddol **NEU** Sgiliau trosglwyddadwy amlwg a gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r problemau sy'n wynebu plant a phobl ifanc dioddef Cam-drin rhywiol.
- Profiad o gynnal sesiynau therapiwtig gyda phlant a phobl ifanc.
- Asesu risg a chynllunio cymorth/diogelwch
- Cofnodi data – profiad o systemau cofnodi data electronig yn ddelfrydol
- Ysgrifennu adroddiadau a chasglu a dadansoddi data
- Meithrin a chynnal partneriaethau

**Priodweddau Personol**

- Bod yn dosturiol ac yn empathig tuag at sefyllfa eich cleient.
- Gweithredu gyda gonestrwydd a pharch wrth weithio gyda'r holl gleientiaid, asiantaethau ac Unigolion
- Gweithio'n hyblyg fel aelod o dîm.
- Bod yn optimistaidd ynghylch y posibilrwydd o dwf a newid personol.
- Ysgogi unigolion ac asiantaethau i symud drwy gamau gweithredu a phrosesau gwneud penderfyniadau

**Agweddau, Ymddangosiadau A Rhinweddau Personol**

Mae'n ddymunol bod gan ddeiliad y swydd y galluoedd canlynol:

- Ymrwymiad i ymarfer gwrth-wahaniaethol
- Gallu asesu eich perfformiad eich hun yn feirniadol a myfyrio ar eich ymarfer eich hun
- Dibynadwy
- Effeithlon a phrydlon
- Cyson a hyblyg – gallu delio â gofynion sy'n newid ac sy'n cystadlu â'i gilydd
- Gallu meddwl yn greadigol a dangos blaengaredd
- Dull anfeirniadol ac anuniongyrchol o rymuso goroeswyr, ynghyd â'r gallu i ddeall anghenion unigol cleientiaid.

**Cyfrifoldebau Corfforaethol**

Nid yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau uchod yn gynhwysfawr: disgwylir i ddeiliaid y swydd gyflawni gwaith ar lefel a chyfrifoldeb tebyg pan ofynnir iddynt wneud hynny.

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd:

- Bod yn ymwybodol o holl bolisïau, gweithdrefnau, gwerthoedd a chodau ymddygiad proffesiynol y sefydliad a chydymffurfio â nhw a chynnal safonau ymarfer gorau.
- Cadw at yr holl reolau Iechyd a Diogelwch a chymryd gofal rhesymol i hyrwyddo eich iechyd a diogelwch chi ac eraill

- Gweithredu mewn ffordd sy’n cefnogi ac yn hyrwyddo Polisi Cyfle Cyfartal RASASC GC, sy’n anelu at sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal ac yn cael mynediad cyfartal at gyflogaeth a gwasanaethau.
- Gweithio mewn ffordd effeithiol, effeithlon a darbodus, ac awgrymu a rhoi gwell ffyrdd o weithio ar waith lle bynnag y bo modd.